maethu cymru | foster wales

Castell-nedd Port Talbot | Neath Port Talbot

maethu a mwy

CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT • NEATH PORT TALBOT COUNCIL •

gwnewch wahaniaeth go iawn i'ch cymuned drwy ddod yn ofalwr maethu a mwy

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'n cymuned faethu? Dyma wasanaeth sy'n cael ei gynnal o fewn Castell-nedd Port Talbot, ble rydyn ni'n chwilio am ofalwyr maeth i gefnogi plant a phobl ifanc i fyw yn eu cymuned o fewn cartrefi maeth. Fel Gofalwr Maethu a Mwy byddwch chi'n rhan o dîm sy'n cefnogi plentyn / person ifanc, sy'n cynnwys cymorth arbenigol gan ein tîm therapiwtig profiadol.

Fel rhiant corfforaethol mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CnPT) yn gwneud ei orau i sicrhau fod plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor yn cael eu rhoi yn y lleoliad mwyaf addas i'w gefnogi orau, er mwyn iddyn nhw gyflawni'u canlyniadau. Fel Gofalwr Maeth a Mwy, byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi plant i fyw'n lleol, yn ein cymuned, yn agos at deulu, ffrindiau a'r ysgol.

Fel Gofalwr Maethu a Mwy byddwch chi'n cefnogi plentyn/ person ifanc sydd wedi profi rhianta anodd ac anghyson. Efallai eu bod wedi profi trais domestig, camddefnyddio sylweddau, esgeulustod ac wedi cael eu cymryd o ofal eu rhieni i'w cadw'n ddiogel. O ganlyniad, bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael trafferth yn emosiynol, ac adlewyrchir hyn o ganlyniad yn eu hymddygiad; er enghraifft, yn yr ysgol fe allant fod yn cwympo'n ôl gyda'u gwaith, efallai'u bod yn cael eu heithrio o'r ysgol neu'n dilyn amserlen a leihawyd. Efallai y byddan nhw'n herio rheolau a ffiniau a osodir. Bydd rhai pobl yn ymddwyn yn ddryslyd o ran eu hunaniaeth. O ganlyniad i bandemig COVID-19 mae mwy o bobl ifanc yn ymgyflwyno'n drist, gofidus ac unig, sy'n anoddach fyth i'r rheiny sy'n derbyn gofal.

Fel arall, mae rhai o'r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal o dan 'Maethu a Mwy' yn wynebu heriau o ganlyniad i anghenion ychwanegol ac anableddau; mae angen cymorth ychwanegol ar rieni i ofalu amdanynt, gall ein Gofalwyr Maeth a Mwy ddarparu seibiant y mae mawr ei angen ar y teuluoedd hyn.

Mae ein tîm therapiwtig ymroddedig (ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) yn sgilgar iawn; maen nhw'n wrandawyr rhagorol a byddan nhw'n eich cefnogi chi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddarparu gofal cyson.

Mae'n bwysig i'r Cyngor weld plant a phobl ifanc yn byw o fewn Castell-nedd Port Talbot a chael eu cefnogi i ddatblygu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â'u cymuned. Rydym ni eisiau sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb ac osgoi gweld plant a phobl ifanc yn profi gorfod symud i leoliadau gwahanol. Felly, rydym wedi datblygu ein Gwasanaeth Maethu a Mwy ymhellach i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni gwell canlyniadau.

pa sgiliau sydd eu hangen ar ofalwyr maethu a mwy?

Ydych chi'n rhan o gymuned Castell-nedd Port Talbot ac eisiau cefnogi plant a phobl ifanc lleol i fyw yn eu cymuned?

Ydych chi'n wrandäwr da?

Ydych chi'n amyneddgar a goddefgar?

Ydych chi'n dda am ddatrys problemau?

Ydych chi'n ymroddedig a gwydn?

Oes gennych chi amser i'w fuddsoddi i ddod i adnabod pobl ifanc a'r hyn sy'n cyfri iddyn nhw?

Ydych chi'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl ifanc i'w helpu i ennill hyder?

Allwch chi fod yn eiriolwr cryf a helpu'r person ifanc i gael clust i'w lais?

Ydych chi'n gallu datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol?

Ydych chi'n gallu cefnogi mynychu ysgol/ coleg?

Ydych chi wedi ymrwymo i weithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys tîm therapiwtig y Cyngor i ddeall yn well sut i helpu a chefnogi person ifanc dan eich gofal?

Allwch chi ymgysylltu â hyfforddiant o safon uchel?

Ydych chi'n fodlon gweithio fel rhan o dîm?

Oes gennych chi wybodaeth a phrofiad o anableddau?

pa fath o ofal fydd gofalwyr maethu a mwy yn ei ddarparu?

Mae **'Maethu a Mwy'** yn wasanaeth arbenigol sydd â'r nod o gefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd ag 'anghenion cymhleth'. Ei nod yw darparu cartrefi diogel i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth a allai orfod byw mewn cartrefi maeth y tu fas i'r ardal fel arall.

Mae'r term 'anghenion cymhleth' yn cynnwys nifer o feysydd wrth ystyried 'Maethu a Mwy'; er mwyn ein cefnogi i ddeall y term hwn yn well, mae gennym bedair haen i esbonio'r gwahanol feysydd angen:

haen 1 anawsterau emosiynol, ymddygiadol a datblygiad cymdeithasol

Math o angen	Math o leoliad sydd ei angen
Mae hyn yn cynnwys ystod eang o broblemau emosiynol. Mae'n derm ymbarél sy'n disgrifio ystod o anawsterau cymhleth gan gynnwys anawsterau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl. Er mwyn i blentyn sy'n derbyn gofal ddod o fewn y Gwasanaeth Maethu a Mwy, byddem ni'n disgwyl i'r plentyn gyflwyno sbectrwm o ymddygiadau, e.e. ymddygiadau ceisio sylw, ymddygiad ymosodol, ymddygiad tarfol, sgiliau cymdeithasol anaeddfed. Er mwyn bodloni meini prawf yr haen hon, bydd anghenion y plentyn y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn gyffredinol gan blant o'u hoedran sy'n derbyn gofal. Mae'n bosibl iawn y gall ac y bydd eu hanghenion yn arwain yn aml at beri na all y plentyn reoli sefyllfaoedd cymdeithasol, gan fod angen goruchwyliaeth ychwanegol yn y cartref a'r ysgol.	Seibiannau Cymorth / aros dros nos (mae hyn yn cefnogi teuluoedd, neu ofalwyr maeth eraill i gael seibiant y mae mawr ei angen). Tymor Byr (wrth i gynlluniau gael eu cytuno ac i ddewisiadau sefydlogrwydd gael eu trefnu, gall hyn amrywio o ddiwrnod neu ddau i ychydig o flynyddoedd). Hirdymor (mae hwn yn barhaol i'r plentyn / person ifanc hyd nes y bydd yn oedolyn).

haen 2 plant ag anableddau

Math o angen	Math o leoliad sydd ei angen
Yng Nghastell-nedd Port Talbot ceir plant sy'n cael cymorth gan y Tîm Gofal Plant Anabledd (CCD), gan gynnwys plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at ddeunaw oed sydd wedi derbyn asesiad o nam corfforol, nam ar y synhwyrau, neu anableddau dysgu. Byddai Plant sy'n Derbyn Gofal sydd ag anableddau a amlygwyd gan ddiagnosis fel arfer yn gymwys i gael darpariaeth Maethu a Mwy os: • Mae eu hanabledd yn golygu eu bod yn cael llawer mwy o anhawster gyda datblygiad corfforol, deallusol, cymdeithasol, emosiynol neu addysgol na mwyafrif y plant o'r un oedran. • Mae angen cymorth rhyngasiantaethol arbenigol ar eu rhieni maeth i wneud y mwyaf o gynnydd corfforol, cymdeithasol, emosiynol ac addysgol.	Seibiannau Cymorth / aros dros nos (mae hyn yn cefnogi teuluoedd, neu ofalwyr maeth eraill i gael seibiant y mae mawr ei angen). Tymor Byr (wrth i gynlluniau gael eu cytuno ac i ddewisiadau sefydlogrwydd gael eu trefnu, gall hyn amrywio o ddiwrnod neu ddau i ychydig o flynyddoedd). Hirdymor (mae hwn yn barhaol i'r plentyn / person ifanc hyd nes y bydd yn oedolyn).

haen 3 lleoliadau rhiant a phlentyn

Math o angen	Math o leoliad sydd ei angen
Ceir adegau pan fydd cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys cael eu lleoli ochr yn ochr â'u rhiant mewn cartref maeth. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol sylweddol ar rieni o'r fath i ofalu am eu plentyn yn ddiogel mewn amgylchedd diogel a meithringar. Mae angen oedolyn diogel arnynt a all ddarparu goruchwyliaeth yn y cartref maeth a'u cefnogi yn y gymuned.	Tymor Byr (wrth i asesiadau gael eu gwneud; fel arfer mae'r math hyn o leoliad yn para rhwng 12 a 26 wythnos). Seibiannau Cymorth / aros dros nos (mae hyn yn cefnogi teuluoedd, neu ofalwyr maeth eraill i gael seibiant y mae mawr ei angen).

haen 4 camu i lawr o ofal preswyl

Math o angen

Yn achos nifer fach o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae byw mewn cartref plant yn eu cefnogi i gael cyfnod o sefydlogrwydd yn eu bywydau. Mae ar rai plant a phobl ifanc angen cefnogaeth tîm staff o'u cwmpas gyda mewnbwn therapiwtig, weithiau diwellir yr angen hwn orau mewn cartref plant. Gyda'u hanghenion yn cael eu hasesu'n barhaus, ar ôl y cyfnod hwn o sefydlogrwydd bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn gallu ac yn barod i fyw mewn cartref maeth er mwyn iddynt allu datblygu ymdeimlad o sicrwydd a diogelwch. Felly, o fewn Maethu a Mwy, rydyn ni wedi datblygu ein cynllun Camu i Lawr newydd i'w cefnogi i gyflawni canlyniadau gwell.

Fel rhan o'r broses baru, ceir cyfnodau rhagarweiniol cadarn, ble bydd y rhieni maeth yn treulio amser gyda'r plentyn sy'n derbyn gofal, yn dod i'w adnabod, a hynny pan fydd y plentyn yn aros yn y cartref preswyl. Bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu perthynas gadarnhaol tra bod y person ifanc yn cynnal perthynas o fewn y cartref.

Math o leoliad sydd ei angen

ymor Byr (wrth i gynlluniau gael eu cytuno ac i ddewisiadau sefydlogrwydd gael eu trefnu, disgwyliem i'r lleoliadau hyn bara 12 mis neu fwy).

Hirdymor (mae hwn yn barhaol i'r plentyn / person ifanc hyd nes y bydd yn oedolyn).

Seibiannau Cymorth / aros dros nos (i gael seibiant y mae mawr ei angen ar ofalwyr).

Ar gyfer pob haen, mae angen gofalwyr Maethu a Mwy llawn amser arno, yn ogystal â gofalwyr Maethu a MwySeibiant Byr (gofal saib). Bydd adegau pan fydd angen seibiant ar ofalwyr maeth llawn amser, gall gofalu am blant ag anghenion cymhleth fod yn heriol yn ogystal â gwerth chweil, ac mae angen i'n gofalwyr Maethu a Mwy gael rhwydwaith gefnogol o'u cwmpas, sy'n cynnwys cael eu paru â gofalwyr Seibiant Byr Maethu a Mwy.

sut mae'r broses yn gweithio?

asesiad ⟶ paru ⟶ cyflwyniad

Asesiad:

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn Ofalwr Maethu a Mwy, yna bydd ein tîm Maethu'n cwrdd â chi i roi mwy o fanylion i chi ac ateb eich holl gwestiynau. Yna byddwch chi'n ymgymryd ag asesiad sy'n mynd gerbron ein Panel Maethu i'w gymeradwyo. Unwaith eto, bydd ein tîm o aseswyr yn gallu ateb eich holl gwestiynau ac ymholiadau ynghylch sut mae hyn yn gweithio.

Paru:

Pan fyddwch chi wedi cael eich cymeradwyo, byddwn ni'n trafod cyfeirio plant atoch ac yn eich paru â phlentyn / person ifanc sy'n disgwyl am deulu maeth. Byddwch chi'n derbyn yr holl wybodaeth berthnasol am y plentyn / person ifanc, gan gynnwys eu profiad hyd yn hyn, beth maen nhw'n ei hoffi a ddim yn ei hoffi, eu diddordebau, beth sy'n bwysig iddyn nhw, a pha gymorth sydd ei angen arnynt.

Cyflwyno:

Fel rhan o baru, cytunir ar gynllun cyflwyno gyda phob parti, ble bydd modd i chi dreulio amser gyda'r plentyn / person ifanc. Bydd hyn yn eich cefnogi chi i ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda'r plentyn / person ifanc, cyn i unrhyw symud ddigwydd.

sut fydd maethu cymru castell-nedd port talbot yn eich cefnogi fel gofalwr maethu a mwy?

Os ydych chi'n Ofalwr Maethu a Mwy gallwch ddisgwyl cael pecyn cymorth fel rhan o'r dull 'tîm o amgylch y plentyn. Fel Gofalwr Maethu a Mwy, byddwn ni yno i chi bob cam o'r ffordd.

Bydd eich cefnogaeth yn cynnwys:

- Mae gennym system ar alw ble gallwch gysylltu â'r tîm i gael cefnogaeth a chyngor yn ystod oriau swyddfa a thu allan i oriau swyddfa
- Bydd gennych weithiwr cymdeithasol goruchwyliol ymroddedig a fydd yn cysylltu'n wythnosol â chi
- Bydd gennych oruchwyliaeth fisol gan Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol
- Cyfarfodydd 'tîm o amgylch y plentyn' bob pythefnos ar gyfer y rheiny sy'n ymwneud â lleoliadau 'Camu i Lawr' a threfniant 'Rhiant a Phlentyn', am o leiaf y 12 wythnos gyntaf
- Byddwch chi'n derbyn cefnogaeth gan ein tîm therapiwtig arbenigol a phrofiadol gan gynnwys Seicolegydd Fforensig hynod brofiadol, gweithwyr cymdeithasol arbenigol a gweithwyr allgyrraedd
- Byddwn ni'n eich helpu i ddeall y trawma a brofwyd gan blentyn/ person ifanc a sut mae hyn yn amlygu yn eu hymddygiad
- Byddwn ni'n dysgu'r sgiliau i chi i allu darparu dull rhianta therapiwtig i ofalu am blant a phobl ifanc; bydd hyn yn eich helpu i ddarparu rhianta o safon uchel a chyson
- I'r rheiny sy'n cefnogi plant ag anableddau, bydd gennych chi fynediad hefyd i dîm arbenigol o fewn y Tîm Anabledd Gofal Plant, gan gynnwys Ymwelydd Iechyd Arbenigol a Gweithiwr Cefnogi Ymddygiad
- Bydd ein gweithwyr allgyrraedd ymroddedig yn darparu cefnogaeth gyson i chi a'r plentyn/ person ifanc yn eich gofal
- Byddwn ni'n trefnu hyfforddiant arbenigol i chi yn eich maes gofal (a gysylltir â'r haenau uchod)

cefnogaeth ariannol

O fewn Maethu Cymru Castell-nedd Port Talbot, rydyn ni'n deall fod gofalwyr maeth yn rhoi o'u hamser i ofalu am ein plant, Fel gofalwr maeth, byddwch chi'n derbyn hyfforddiant trylwyr i sicrhau fod eich rhianta wedi'i addysgu ar gyfer trawma; mae ein lwfansau'n adlewyrchu'r amser a rowch chi ac yn cydnabod eich sgiliau a'ch arbenigedd yn y dasg o faethu.

Dyma enghraifft o lwfansau Gofalwr Maethu a Mwy Haen 1 / Haen 2:-

- Ffi gofalwr o £319 yr wythnos (gweithredol o 1 Ebrill 2024).
- Yn ogystal â'r ffi gofalwr o £319 yr wythnos, ceir lwfans wythnosol sy'n ddibynnol ar oedran ar gyfer pob plentyn / person ifanc dan eich gofal. Seilir y lwfans hwn ar y lleiafsymiau cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys taliadau ar gyfer arian poced, lwfans gwyliau a dillad.

Oedran	Sylfaenol	Arian Poced	Dillad	Lwfans Gwyliau	Cyfanswm wythnosol
11-15	£163.46	£9.73	£20.30	£5.51	£199
16-17	£197.71	£15.40	£27.86	£7.03	£248

Enghreifftiau o lwfansau a dderbynnir:

- Byddai cyfuniad o ffi gofalwr a lwfansau'r plentyn (pe baech chi'n gofalu am rywun ifanc 11-15 oed) hyd at £518 yr wythnos.
- Byddai cyfuniad o ffi gofalwr a lwfansau'r plentyn (pe baech chi'n gofalu am rywun ifanc 16-17 oed) hyd at £567 yr wythnos.

Yn ogystal â'r lwfansau uchod, bydd gofalwyr maeth yn derbyn cefnogaeth ariannol ychwanegol, er enghraifft talu grantiau pen blwydd, grantiau Nadolig, cefnogaeth gyda thripiau ysgol, offer arbenigol a lwfans milltiroedd ar gyfer teithio sy'n cael ei wneud fel gofalwr maeth.

Dyma gyfle cyffrous i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Os hoffech chi wneud gwahaniaeth go iawn yn eich cymuned drwy ddod yn Ofalwr Maethu a Mwy, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni heddiw ar 01639 685866 neu e-bostiwch fostering@npt.gov.uk

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

01639 685866

fostering@npt.gov.uk

npt.fosterwales.gov.wales

Foster Wales NPT/
Maethu Cymru CNPT

@fosterwalesnpt

maethu cymru
Castell-nedd Port Talbot

foster wales
Neath Port Talbot